Ministry of Justice

**Yr Arglwydd Timpson**

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol
CEF Berwyn
Ffordd y Bont
Ystadau Diwydiannol Wrecsam
Wrecsam
Gogledd Cymru
LL13 9QE

**Cyfeirnod y Weinyddiaeth Gyfiawnder:** SUB118301

22 Hydref 2024

Annwyl Gadeirydd,

**CEF BERWYN: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MAWRTH 2023 – 29 CHWEFROR 2024**

Diolch i chi am ddarparu adroddiad blynyddol eich Bwrdd ar Garchar EF Berwyn. Ar ôl darllen yr adroddiad, mae'n amlwg eich bod chi a'ch cydweithwyr wedi gwneud llawer iawn o waith, fel arfer, i gofnodi cyflwr presennol y carchar. Mae hyn yn rhyfeddol o dda o ystyried eich bod wedi parhau i fod mor brin o aelodau. Rwy'n ddiolchgar iawn i bob un am eu cyfraniadau ac edrychaf ymlaen at allu diolch i chi wyneb yn wyneb a thrafod materion pellach gyda chi a chydweithwyr yn Nigwyddiad Byrddau Monitro Annibynnol Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr ar 11 Tachwedd 2024 yn y carchar, ond a fyddech cystal â chyfleu fy niolch i'ch cydweithwyr yn y cyfamser.

Roeddwn yn drist iawn o ddarllen am farwolaeth carcharor yng Ngharchar EF Berwyn yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae unrhyw farwolaeth yn ein carchardai yn drasiedi ac rwy'n cydymdeimlo o waelod calon â'r ffrindiau a'r teulu. Hoffwn sicrhau anwyliaid yr unigolyn bod marwolaethau yn y ddalfa'n cael eu cymryd o ddifrif. Fel y gŵyr y Bwrdd, mae'n bwysig yn yr amgylchiadau trasig hyn ein bod yn gweithredu ar argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf. Mae hyn yn rhywbeth rwyf yn ei drafod â Llywodraethwyr pryd bynnag y caf gyfle i ymweld â charchardai.

Rwyf yn rhannu pryderon parhaus y Bwrdd am leoliadau arbenigol ar gyfer carcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl ac anhwylderau personoliaeth. Cydnabyddir bod carcharorion agored i niwed – sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer eu cadw dan glo dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac sy'n gofyn am gael eu trosglwyddo i ysbyty iechyd meddwl – yn wynebu oedi cyn cael gafael ar y gofal a'r driniaeth arbenigol sydd eu hangen arnynt, ac yn gorfod aros ar wahân i garcharorion eraill. Rwyf ar ddeall bod oedi'n brin o ran trosglwyddo carcharorion i'r uned diogelwch canolig leol yng Ngogledd Cymru, ond y gall fod yn fwy heriol wrth eu hatgyfeirio i'r unedau diogel yn Lloegr. Mae'n amlwg bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod gwelyau ysbyty diogel ar gael cyn gynted â phosibl. Mae gan y Llywodraeth rôl i'w chwarae yn hyn o beth ac rydym ni yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyflwyno Mesur Iechyd Meddwl cyn gynted â phosibl. Bydd y mesur hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddiwygiadau i gefnogi pobl sy'n dioddef o salwch meddwl difrifol yn y system cyfiawnder troseddol ac i wella mynediad at driniaeth arbenigol i gleifion mewnol er mwyn darparu'r gofal amserol sydd ei angen arnynt.

Roedd yn galonogol iawn darllen am yr amrywiaeth o addysg a hyfforddiant sydd ar gael, gyda chysylltiadau â chyflogwyr allanol sy'n darparu lleoliadau 'Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro' i garcharorion. Roedd hefyd yn dda clywed bod y Bwrdd Cynghori ar Gyflogaeth, dan

gadeiryddiaeth cyflogwr adeiladu sefydledig, yn cynghori ynghylch

**E-bost** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
**Ffôn** +4420 3334 3555
**Ffacs** +44870 761 7753
www.gov.uk/moj
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

helpu pobl sy'n gadael carchar i gael gwaith. Rwyf hefyd yn croesawu'r digwyddiadau cyflogaeth misol sy'n cael eu cynnal yn y carchar – daw darpar gyflogwyr i'r rhain ac maent yn cwmpasu'r pum academi sefydledig yn y carchar. Cefnogaeth a chyfleoedd fel y rhain sy'n gwella'r siawns y bydd carcharorion yn cael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau.

Sylwaf eich bod wedi codi tri mater lleol sy'n peri pryder yn eich adroddiad; bydd y Llywodraethwr yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF mewn ymateb i faterion eraill a godwyd yn eich adroddiad wedi'u nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a minnau wir yn gwerthfawrogi'r rôl bwysig y mae Byrddau Monitro Annibynnol yn ei chwarae ledled yr ystâd ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi a'ch tîm am eich gwaith caled parhaus ar ran CEF Berwyn.

Edrychaf ymlaen at eich gweld yn nigwyddiad IMB yng Ngharchar EF Berwyn ar 11 Tachwedd.



**Yr Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog dros Garchardai, Prawf a Lleihau Aildroseddu**

# CEF BERWYN: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MAWRTH 2023 – 29 CHWEFROR 2024

## Sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar faterion a godwyd yn yr adroddiad

### Iechyd Meddwl

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn cydnabod ac yn diystyru'r heriau sy'n wynebu'r carcharorion hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r holl garcharorion yn cael eu gweld gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn rheolaidd, a rhennir gwybodaeth â chydweithwyr gweithredol lle bo angen i helpu gyda'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd. Mae GIG Cymru yn parhau i ddatblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion y boblogaeth yng Ngharchar EF Berwyn, sy'n seiliedig ar asesiad o anghenion iechyd a gomisiynir. Cynhelir yr asesiad hwn bob tair blynedd. Mae eisoes yn orfodol bod yr holl staff gweithredol – gan gynnwys y rhai a allai fynd ymlaen i weithio mewn unedau gwahanu – yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl fel rhan o'r cwrs hunanladdiad a hunan-niwed. Cynhelir proses i ddethol Swyddogion Carchar i weithio yn uned Ogwen yng Ngharchar EF Berwyn, er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y rôl a'u bod yn gallu cefnogi carcharorion sydd ag amrywiaeth o anghenion cymhleth. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF hefyd wedi cyhoeddi canllaw dysgu, sy'n tynnu sylw at arferion addawol o ran gwahanu. Mae'n darparu gwybodaeth am uwchsgilio staff a chyfeirio pobl at adnoddau a hyfforddiant iechyd meddwl. Ar ben hynny, mae fframwaith y polisi gwahanu yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd meysydd i'w datblygu sydd ar y gweill yn parhau i gael eu hystyried.

### Gwresogi

Ym mis Mai 2024, cwblhawyd y rhaglen ar gyfer adnewyddu'r Prif Falfiau'r System Gwresogi Ardal yn llwyddiannus. Bydd hyn yn helpu i gadw'r prif gyflenwad wedi'i wresogi yn rhydd rhag gollyngiadau ac achosion o golli gwasgedd, gan olygu bod gwres yn cael ei drosglwyddo'n well i'r Blociau Tai ac ardaloedd eraill o'r Ganolfan Ynni. Ar ben hynny, mae proses fflysio wedi cael ei chynnal i gael gwared ag unrhyw halogiad o ochr eilaidd y systemau gwresogi. Bydd y Systemau Cyfunol Gwres a Phŵer yn cael eu hailosod a'u profi'n dymhorol, a fydd yn darparu mwy o allbwn gwres drwy ddefnyddio'r asedau hyn fel y brif ffynhonnell wresogi yn hytrach na'r boeleri wrth gefn.

### Adnewyddu Celloedd

Fel y gŵyr y Bwrdd, mae'r ystâd carchardai wedi bod o dan bwysau difrifol o ran capasiti a bu'n rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF gymryd camau pendant i gynyddu capasiti'r ystâd bresennol yn gyflym. Roedd hyn yn cynnwys llawer o benderfyniadau ynghylch gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu angenrheidiol ar draws yr ystâd, gan gynnwys y rhaglen waith ar gyfer peintio yng Ngharchar EF Berwyn. Cydnabyddir bod safon rhai celloedd yn dal i fod yn is na'r safonau a ddisgwylir oherwydd nid oedd modd rhoi sylw iddynt cyn iddynt orfod cael eu defnyddio eto. Yn y cyfamser, mae'r carchar wedi bod yn parhau i wneud cynnydd i fynd i'r afael â hyn pan fydd lle ar gael, ond cydnabyddir bod hyn wedi bod yn arafach o lawer na'r rhaglen wreiddiol. Er mwyn helpu hefyd i leddfu'r pwysau ar leoedd mewn carchardai, ar 12 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol newidiadau dros dro i leihau faint o'u dedfryd y mae'n rhaid i'r carcharorion hynny sy'n cael Dedfrydau Penodol Safonol ei fwrw yn y carchar – o 50% i 40% o'r ddedfryd honno. Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn asesu effaith y mesurau hyn ar boblogaeth y carchardai, a allai arwain at ehangu ymrwymiadau cynnal a chadw ac adnewyddu ar draws yr ystâd carchardai.